

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 13eg o Ionawr 2022

## Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Datgan buddiant
4. Derbynn cofnodion 09fed o Rhagfyr 2021
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Materion ariannol
  - i. Mantolen ariannol
7. Logo newydd
8. Cynllunio

C21/1185/25/LL Land Opposite Ty Mel, Bangor, LL57 4UG Codi 2 dy fforddiadwy, mynedfa newydd, parcio, tirlunio a gwaith

C21/1023/25/CR 1, Elizabeth Terrace High Street, Glasinfryn, Bangor, Gwynedd, LL57 4UW Codi estyniad unllawr ar gefn ty annedd ynghyd ag addasiadau mewnol

C21/1206/25/LL Land Adjacent To Bro Infryn,, Glasinfryn, LL57 4UR Datblygiad preswyl yn cynnwys 6 tŷ deulawr ac un tŷ un llawr fforddiadwy a gwaith cysylltiedig

C21/1162/25/AM Garnedd Bach Ffordd Tŷ'n Clwt, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2LU Codi tŷ deulawr a mynedfa newydd.

C21/1250/25/DT Pen Y Bont Ffordd Bronwydd, Treborth, Bangor, Gwynedd, LL57 2NX Estyniad un llawr yn y cefn
9. Materion y Clerc
  - Diffibs Diweddariad
  - Septic Tanc Diweddariad
  - Drysau Canolfan Glasinfryn Amcanbrisiau
10. Materion y Cynghorwyr

Cyng M Lynch / J Lewis	Goleuadau llachar Is Orsaf Bŵer Pentir
Cyng D Jones Morris	Openreach / FTP
Cyng M Baines	Lon bach a Llywbr rhif 4 Glasinfryn

# Cyngor Cymuned Pentir

## Cofnodion cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 09fed o Rhagfyr 2021

1. **Presennol:** Cyng D W Jones – Cadeirydd, Cyng D Jones-Morris Cyng J Lewis; Cyng E Jones; a Cyng M Baines  
Ms Eiliw Owen ag Elin o Adra yn cyflwyno bwriadau'r Cwmni yn ardal Bro Infryn Glasinfryn  
Clerc E Jones
2. **Ymddiheuriadau** Cyng M Lynch; Cyng B Jones, Cyng J Pierce; Cyng J Griffiths Cyng T Anwyl  
Williams a'r Cyng H Griffiths Cyng L A James wedi methu ymuno'n rhithiol
3. **Cyflwyniad gan Eiliw Owen o Cwmni tai Adra**  
Cafwyd cyflwyniad Powerpoint ag amlinnelliad o fwriad Cwmni Tai Adra i adeiladu 7 ty  
Fforddiadwy ar stad Bro Infryn Tai fyddai rhain ar gyfer pobl dros 55 oed ag sydd hefyd hefo  
cyswllt lleol  
Diolchwyd iddynt am y cyflwyniad
4. **Datgan buddiant**  
Cyng M Baines yn datgan ei bod yn aelod o banel golygyddol Papur Bro Goriad oedd wedi gwneud  
cais am nawdd.
5. **Derbyn cofnodion 11eg o Dachwedd 2021**  
Derbynwyd yn gywir ar gynnig y Cyng E Jones gafodd ei eilio gan y Cyng J Lewis yn eilio
6. **Materion yn codi o'r cofnodion**  
Dim nad oedd wedi ei gynnwys yn yr agenda
7. **Materion ariannol**  
Cyfarfod IBC 1af o Rhagfyr 2021
  - a. **Mantolen ariannol** Rhanwyd y fantolen ariannol ar y sgrin oedd yn dangos £45,025.91c  
yn y cyfrif Cyfredol a £35,039.39 yn y cyfrif Cadw
  - b. **Ceisiadau Nawdd** Cais am nawdd gan papur bro Goriad Argymell i'r Cyngor Llawn i  
gyfrannu £300.00 eleni
  - c. **Taliadau** Argymhellwyd talu y cyfan oedd i law
  - d. **Cais wedi ei dderbyn gan bwyllgor Canolfan Glasinfryn** i ystyried trwsio/adnewyddu  
drysau tan y ganolfan oedd yn agor yn weddol rwydd ond anodd eu cau ag ar gost pwy.  
Argymhellwyd cael prisiau adnewyddo ar gost Cyngor Pentir fel perchnogion yr eiddo.  
Argymell drysau plastig ag edrych ar weddill y ganolfan o ran diogelwch a arbed ynni.  
**Clerc i chwilio am brisiau**
  - e. **Drafft Cynllun Busnes** Trafodwyd prosiectau fyddai yn syrthio o fewn/cyd fynd a  
canllawiau/ cynllun Cyngor Gwynedd a/neu Llywodraeth Cymru parthed Newid Hinsawdd,  
Llesiant, Amgylchedd Diogelwch Cymunedol a.y.y.b **Argymell cadw Praesept a'r yr un  
lefel sef £55K am y flwyddyn ariannol nesaf**
8. **Logo newydd** Dim diweddariad yn absenoldeb Cyng L A James sy'n gweithredu ar ein rhan hefo'r  
dylunnydd

## 9. Cynllunio

C21/1022/25/DT 1, Elizabeth Terrace High Street, Glasinfryn, Bangor, Gwynedd, LL57 4UW Cais Estyniad llawr cyntaf i gefn ty annedd **Dim gwrthwynebiad**

## 10. Materion y Clerc

- **Diffibs Diweddariad** Adroddodd y Clerc ei fod wedi anfon y siec i Difib Stores fel Diffib yn hytrach nag un 'f' ag iddo fod wedi gallu trosglwyddo yr arian a derbyn cadarnhad i shredio'r siec
- **Septic Tanc Diweddariad** Y Clerc wedi cychwyn holi am brisiau i allu cwblhau y ffurflen Adran 106 ond heb dderbyn ymatebion
- **Torri Llwybrau Pentir** Contractwr arferol ddim am gario ymlaen ar ol eleni ond contactwr sy'n torri'r fynwent a llwybrau Bangor wedi datgan diddordeb ag am gyfarfod i weld yn union lle sydd angen eu torri
- **Lon Plas Pentir/Rhiwlas** Clerc wedi derbyn amcanbris o £1050 i dorri brigau a mielri a'u stacio yn ol **Cytuno i'r Clerc osod y gwaith**
- **Cerrig Beddi wedi eu difrodi** 2 garreg fedd wedi eu malurio – bosib yn ddamweiniol gan rhywun ond heb adael i ni wybod.  
Clerc eisioes wedi cysylltu ag ymgymerwyr i ddatgan ein siom ag y byddwn yn archwyllo yn fanylach o hyn ymlaen yn dilyn angladdau.  
**Y Clerc wedi holi am brisiau adnewyddu ond heb dderbyn amcanbris tan y flwyddyn newydd**
- **Costau Ink a Papur £68.98 Cytunwyd ad-dalu'r Clerc**

## 11. Materion y Cynghorwyr

### a. C yng J Lewis

- i. **Parcio wrth Hen Gapel** Adroddwyd fod parcio yng nghyffiniau yr 'Hen Gapel' yn achosi pryderon i drigolion y tai gan fod rhai fania yn cael eu gadael gan unigolion sydd ddim yn byw yno ag yn achos difrod i ymylon y llecyn gwyrdd.  
Mae'r broblem wedi eu thrafod sawl tro o'r blaen a bwriad unwaith i greu llecynau parcio yna. Y pryder mwyaf ar y pryd oedd na fyddai yna byth ddigon o lefydd ag y byddai hynny'n achosi mwy o broblemau ag efallai unigolion yn dechrau hawlio llecyn
- ii. **Blodau Gwyllt** Ofer fyddai ceisio datgan fod y fenter yma wedi bod yn unrhyw fath o lwyddiant eleni ond mae'r dyhead yn dal i fod i drefnu llecynau tebyg.  
Cyngor Gwynedd am geisio cael profion pridd ar y llecyn yma.  
Efallai bydd angen ystyried llecyn arall

### b. C yng M Baines

- i. **Traffig Ffordd Penrhos – diweddariad**  
Yn dilyn apel Penyffridd fydd yn sicr o gynyddu traffig mi fu cyfarfod rhyngddi a swyddogion traffig gwynedd i drafod gosod croesfannau mewn llefydd addas ar y ffordd brysur yma.  
Yn amlwg mi fydd angen llawer iawn mwy o drafodaethau am leoliadau yn y flwyddyn newydd

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50

Dymunwyd Nadoilg Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb